OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 1035 (Cy.90)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*22 Ebrill 2009*
Yn dod i rym - -	*23 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 21 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a pharagraff 1 o Atodlen 4 iddi(**1**) ac yn unol â pharagraff 1(7) o Atodlen 4 i'r Ddeddf honno, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, Cychwyn a Dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cyfalaf Cychwynnol) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 23 Ebrill 2009.

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr "yr Atodlen" yw'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

Cyfalaf Cychwynnol Ymddiriedolaethau'r GIG

2. Cyfalaf cychwynnol ymddiriedolaeth GIG a bennir yng ngholofn 1 yr atodlen yw'r swm a bennir gyferbyn ag ef yng ngholofn 2 yr Atodlen

Edwina Hart
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru.

22 Ebrill 2009

(**1**) 2006 p.42.